SKSG7

Rigio craeniau camera a breichiau jib

Trosolwg

Mae'r Safon hwn yn ymwneud â rigio craeniau camera neu freichiau jib. Mae'r term craen neu graeniau wedi dod yn derm generig. Maen nhw'n amrywio'n enfawr o ran maint a phwysau. Bwriadwyd y safon hon i gynnwys pob maint a phwysau o graen a breichiau jib. Mae'n cynnwys deall manylebau'r gwahanol fathau o offer craen, yr hyn y maen nhw'n gallu gwneud a'r ffordd y maen nhw'n gweithio, ac addasrwydd eu defnyddio yn yr amodau amgylcheddol cyfredol. Mae'n cynnwys eu defnyddio ar y cyd â mathau eraill o lwyfannau symudol, a rhagweld gofynion diogelwch arbennig y cyhoedd, y perfformwyr a'r criw o ran offer.

Mae'r safon hwn ar gyfer unrhyw un sy'n ymwneud â rigio craeniau camera neu freichiau jib ar gyfer cynhyrchiad.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1 Cadarnhau fod manylebau gwneuthurwyr neu gyflenwyr a thystysgrifau prawf diogelwch rheoliadol yn ddilys ac ar gael

2 Defnyddio craeniau a jibiau o'r hyd addas ar gyfer y siotiau sydd eu hangen

3 Rigio craeniau'n unol â gweithdrefnau trin â llaw a rheoliadau perthnasol

4 Rhoi gwybod i bobl berthnasol pan fydd agweddau ar leoliadau'n anaddas neu'n beryglus ar gyfer defnyddio craeniau camera a breichiau jib

5 Gwirio fod cyfanswm pwysau'r holl offer camera, gan gynnwys gweithredwyr camera a'u camerâu ar gyfer craeniau y mae rhywun yn reidio arnynt, o fewn i bwysau gweithio diogel y gwneuthurwr

6 Gwirio fod unrhyw arwyneb neu fownt arall, neu fath o drac yn gallu cynnal y craeniau

7 Gwirio fod hydroleg, pwyseddau ac unrhyw declynnau diogelwch pwysau a ymgorfforir, yn unol â manyleb y gwneuthurwr

8 Darparu cyfrwyon diogelwch sydd o fewn dyddiad ar gyfer pob aelod perthnasol o'r tîm, cynhyrchu

9 Adeiladu craeniau'n unol â rheoliadau a chanllawiau presennol fel nad yw'n eu niweidio nac yn peryglu pobl

10 Gwirio fod pob dyfais gloi'n weithredol, yn ei lle ac yn gweithio'n unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

11 Cyfarwyddo pobl berthnasol ar y modd o ddefnyddio unrhyw swyddogaethau cloi a diogelu arbenigol

12 Darparu dyfeisiadau cloi sy'n atal symud heb ganiatâd ar graeniau y gellir eu reidio

13 Gweithredu rheoliadau gweithio diogelwch wrth weithio ger ceblau dros ben a cheblau ynni

14 Sicrhau craeniau yn ystod rigio neu storio i atal unrhyw ddigwyddiadau a allai'u niweidio neu eu gwneud yn anniogel

15 Ceisio cefnogaeth arbenigol gan bobl berthnasol i ddarparu unrhyw gyflenwadau ynni neu fondio daear ar gyfer gweithredu offer

16 Defnyddio gwybodaeth ddibynadwy i adnabod unrhyw gynnal a chadw arbenigol sydd ei angen yn ystod defnyddio'r offer

17 Darparu gwarchodaeth amgylcheddol ddiogel a saff ar gyfer offer a gweithredwyr, yn unol â rheoliadau, canllawiau ac arfer orau cyfredol y diwydiant.

18 Mabwysiadu gweithdrefnau arbennig gofynnol wrth weithio ar uchder

19 Cynnal pwysedd teiars nad ydynt yn solid, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr

20 Cynghori pobl berthnasol o ofynion diogelwch arbennig pan adewir

craeniau heb oruchwyliaeth

21 Gwirio fod yr holl adeiladwaith yn ddiogel i'w ddefnyddio ac yn rhydd o unrhyw rwystrau, a bod yr ardal waith yn daclus bob amser

22 Sicrhau fod unrhyw geblau'n ddiogel, yn rhydd o allu cael eu niweidio ac yn ddigon hir

23 Gweithredu craeniau i ddangos eu bod yn ddiogel ar gyfer symudiad ac ymestyniad llawn y defnydd bwriedig, heb ddim rhwystrau neu beryglon diogelwch eraill.

24 Sicrhau craeniau yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr cyn y bydd unrhyw bersonél yn mynd ar i'r craen neu'n dod oddi arno, gan gytuno o'r ddeutu ynghylch pob symudiad o'r fath gydag unrhyw weithredwyr eraill

25 Sicrhau a diogelu offer pan nad yw'n cael ei ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr

26 Rhoi cyfarwyddyd clir o'r mannau o dan a gerllaw craeniau ble na ddylai pobl gerdded

27 Gwirio fod llwybrau'n rhydd o bobl nad ydyn nhw'n hanfodol, ceblau a rhwystrau eraill.

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1 Rheoliadau a chanllawiau cyfredol sy'n ymwneud â rigio craeniau a breichiau jib gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â phrofi, rigio a gweithredu craeniau camerâu a breichiau jib.

2 Sut i gwblhau asesiad risg, a phwy yn y tîm cynhyrchu sydd angen yr wybodaeth honno

3 Gofynion y cynhyrchiad a'r lleoliadau gweithredu a ragwelir

4 Manylebau'r gwneuthurwyr neu'r cyflenwyr a'u perthnasedd

5 Dilysrwydd a bodolaeth unrhyw dystysgrifau diogelwch a phrawf

6 Ystod craen y camera a braich y jib, eu defnydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt, a sut i adnabod y math cywir i'w ddefnyddio, gan gynnwys hyd addas, i gwrdd â gofynion penodol unrhyw siot.

7 Terfynau eich arbenigedd a ble mae'n addas i alw ar arbenigwyr eraill

8 Manteision gweithio mewn tîm a sut i gyfathrebu ag eraill

9 Pwysau'r craen a'r holl offer sydd i'w fowntio arno

10 Sut i gael manylion pwysau pob personél a fydd yn cael eu cludo ar y craen

11 Defnyddio a rigio craeniau a jibiau'n ddiogel ar gerbydau tracio

12 Addasrwydd yr arwyneb neu drac a ddefnyddir i gynnal y craen

13 Llwythi gweithio diogel a ffiniau'r craen

14 Sut i gael gwybodaeth am, a chyfrifo, cyflymder y gwynt ac uchder neu gyrraedd gweithio diogel yn y tywydd sydd yn digwydd ar y pryd

15 Oblygiadau unrhyw nwyon neu hydroleg a gynhwysir yn yr offer a sut i'w monitro

16 Y drefn gywir y dylid adeiladu craeniau ynddi

17 Sut i wirio fod dyfeisiadau cloi yn gweithio'n gywir

18 Sut i sicrhau craeniau pan fyddant yn cael eu rigio neu storio

19 Achosion posib o niwed i'r craen a sut i'w hosgoi

20 Sut i gynghori'r adran drydanol pan fydd angen cyflenwadau trydan ar gyfer gweithredu'r craen

21 Pa weithdrefnau cynnal a chadw parhaus sydd eu hangen

22 Sut i adnabod namau a'r weithdrefn adrodd nôl gywir

23 Gweithdrefnau gweithredu diogel ar gyfer llwytho a dadlwytho craeniau ar gyfer mynd i mewn ac allan, gan gynnwys â phwy i gyfathrebu

24 Yr offer gwarchod amgylcheddol sydd ei angen

25 Sut i ddiogelu'r rig pan fydd wedi cael ei adael heb ei oruchwylio neu mewn amodau tywydd anffafriol

26 Sut i wirio'r ardal uwchlaw ac o gwmpas cylch llawn y safle adeiladu a gweithredu ar gyfer unrhyw berygl diogelwch neu rwystr

27 Â phwy i gyfathrebu ar y set o ran defnyddio'r craen neu'r jib yn ddiogel

28 Y gofynion diogelwch arbenigol a all fod yn berthnasol pan adewir craeniau heb oruchwyliaeth

29 Sut i roi gwybod i bob personél cynhyrchu am arferion gweithio diogel

30 Pryd a ble i geisio cyngor a gwybodaeth gymwys addas arall

31 Pa Offer Gwarchod Personol (PPE) sydd ei angen, a phryd i'w ddarparu

32 Sut i ddiogelu offer pan nad yw'n cael ei ddefnyddio

33 Pam ei bod hi'n bwysig cadw offer yn sych ac yn rhydd o lwch, tywod a malurion eraill

34 Arwyddion addas i rybuddio eraill o beryglon cerdded ger craeniau

Rigio craeniau camera a breichiau jib

Datblygwyd gan	Creative Skillset
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2018
Indicative Review Date	Mawrth 2022
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Screen Skills (gynt Creative Skillset)
RCU gwreiddiol	SKSG7
Galwedigaethau perthnasol	Grip; Grip dan hyfforddiant; Technegydd Craen (Ffilm a theledu); Gweithredwr Craen (Ffilm a theledu)
Cyfres/Set	Grips a thechnegwyr craeniau
Geiriau Allweddol	Grip, Breichiau jib, Craeniau camera, Iechyd a diogelwch, Trac